

# YMATEB LLYWODRAETH CYMRU I'R CASGLIADAU YN ADRODDIAD Y PWYLLGOR CYLLID:

## CRAFFU AR AIL GYLLIDEB ATODOL LLYWODRAETH CYMRU 2018-19

---

### Argymhelliad 1

**Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu cynllun pennu amcanion cynhwysfawr ynghylch sut y mae'n bwriadu cyflawni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, o ran cyllidebu, erbyn diwedd y Cynulliad hwn.**

**Ymateb:** Derbyn mewn egwyddor

Rydym wedi ymrwymo i wneud Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhan annatod o broses y gyllideb ac rydym yn croesawu'r ffaith bod y Pwyllgor wedi cydnabod y camau cadarnhaol yr ydym eisoes wedi'u cymryd i'r perwyl hwn.

Mae gwneud y Ddeddf yn rhan annatod o broses y gyllideb yn broses barhaus. Mae agenda gyni Llywodraeth y DU a'r ansicrwydd parhaus ynghylch Brexit yn effeithio ar ein gallu i ddatblygu cynlluniau mwy hirdymor. Serch hynny, wrth inni baratoi ar gyfer adolygiad arfaethedig Llywodraeth y DU o wariant, heb fawr o wybodaeth ar hyn o bryd am hyd a lled yr adolygiad, rydym wedi ymrwymo i adlewyrchu gofynion y Ddeddf wrth inni gynllunio ar gyfer y dyfodol agos ond hefyd y tymor hwy.

Rydym yn gweithio gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a'i thîm i ymchwilio i sut y gallwn gymryd camau pellach i adlewyrchu'r Ddeddf ym mhroses y gyllideb ac yn ein syniadau. Byddaf yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y cynnydd a wneir yn y maes hwn.

### Argymhelliad 2

**Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu cynnwys ei gwybodaeth am y gyllideb atodol yn y dyfodol gyda'r bwriad o gysoni ei naratif yn nes â'r cyllidebau drafft a therfynol.**

**Ymateb:** Derbyn mewn egwyddor

Mae Cyllidebau Atodol yn gyfrwng yn bennaf ar gyfer codeiddio newidiadau y mae eu hangen o ganlyniad i reolaeth ariannol yn ystod y flwyddyn. Maent yn adeiladu ar y cynlluniau a nodwyd yn y gyllideb ddrafft a'r gyllideb derfynol, ond gyda mwy o bwyslais ar y pwysau a'r cyfleoedd sydd wedi codi yn ystod y flwyddyn. Cytunwyd ar lawer o'r newidiadau mewn cyllidebau atodol yn ystod y flwyddyn gan Weinidogion unigol neu maent yn deillio o ddyraniadau a wnaed mewn cyllidebau blaenorol.

Rydym yn adolygu'r wybodaeth a ddarperir i ategu cynnig y gyllideb atodol yn barhaus. At y dyfodol, byddwn yn anelu at ddarparu naratif mwy cynhwysfawr ar gyfer dyraniadau sylweddol o gronfeydd wrth gefn mewn cyllidebau atodol.

### **Argymhelliad 3**

**Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cynnwys gwybodaeth am lefel gyffredinol cronfa wrth gefn Cymru yn ei holl naratifau cyllidebol.**

**Ymateb:** Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru'n darparu gwybodaeth am lefel gyffredinol cronfa wrth gefn Cymru yn nogfennau'r gyllideb. Byddwn yn parhau i wneud hyn yn y dyfodol, gyda naratif ychwanegol lle bynnag y bo modd, i sicrhau ein bod yn cadw tryloywder priodol. Mae gan naratif y gyllideb ddrafft amlinellol ar gyfer 2019-20 adran benodol ar gyllideb ddrafft amlinellol ar Gronfa Wrth Gefn Cymru sy'n darparu esboniad clir o'i diben a disgrifiad o'n bwriadau ar gyfer y Gronfa Wrth Gefn yn y dyfodol.

Mae'r holl gyllidebau'n darparu manylion yr adnoddau heb eu dyrannu a ddelir am y

flwyddyn ac unrhyw symiau y bwriedir eu tynnu o Gronfa Wrth Gefn Cymru.

Dyma'r flwyddyn gyntaf y mae Cronfa Wrth Gefn Cymru ar waith, felly, rydym hefyd yn ystyried beth y dylid adrodd arno fel rhan o'n hadroddiad ar alldro i'r Pwyllgor Cyllid ar ôl i'n cyfrifon gael eu cyhoeddi.

#### **Argymhelliad 4**

**Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod gwaith cynllunio ariannol yn cyfrif am wariant rhagweladwy ar bwysau'r gaeaf cyn gynted â phosibl yn y broses gyllidebu.**

**Ymateb:** Derbyn

Disgwylir i sefydliadau'r GIG ymgorffori eu cynlluniau ar gyfer y gaeaf yn y Cynlluniau Tymor Canolig Integredig a'r cynlluniau gweithredol a gyflwynir i Lywodraeth Cymru cyn dechrau'r flwyddyn ariannol, wedi'u hariannu o'u dyraniadau refeniw craidd. I gydnabod y pwysau eithafol a fu ar wasanaethau yn y blynyddoedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi trefnu bod cyllid ychwanegol ar gael yn ystod y flwyddyn i gefnogi gwelliannau i'r cynlluniau craidd.

Wrth inni fynd ati i weithredu'r weledigaeth a nodwyd yn *Cymru Iachach*, byddem yn disgwyl i sefydliadau roi'r gorau i ddibynnu ar gymorth ariannol yn ystod y flwyddyn i gynnal darpariaeth gwasanaethau craidd. Bydd Llywodraeth Cymru'n cadw'r dewis i drefnu bod cyllid ychwanegol ar gael yn ystod y flwyddyn lle bo hyn yn briodol, ond yn y blynyddoedd ariannol i ddod byddem yn disgwyl i hyn gefnogi gweddnewid y ffordd y mae gwasanaethau gofal cymdeithasol yn ymateb i bwysau'r gaeaf, gan gynnwys pwyslais cynyddol ar osgoi derbyniadau a rhyddhau cleifion yn gyflym.

#### **Argymhelliad 5**

**Mae'r Pwyllgor yn pryderu ynghylch lefel y cyllid sy'n cael ei neilltuo i brosiect pan fo cymaint o ansicrwydd ac yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi rhagor o fanylion ar y gwaith cynllunio ar gyfer yr M4. Byddai'r Pwyllgor yn**

**croesawu eglurder ynghylch a fuasai angen y cyllid ychwanegol pe bai penderfyniad wedi'i wneud ar yr adeg y bwriadwyd yn wreiddiol ym mis Rhagfyr 2018, a faint o arian ychwanegol y gall fod angen ei neilltuo cyn y gwneir penderfyniad.**

**Ymateb:** Derbyn

Mae gwariant ar ddatblygu prosiect yr M4 Hyd yn hyn, i lywio'r broses benderfynu statudol, wedi bod yn gymesur â'r gwariant ar gyfer prosiectau seilwaith eraill.

Mae angen gweithgareddau cynllunio, dylunio ac amgylcheddol statudol i lywio'r penderfyniadau ynghylch a ddylid bwrw ymlaen â phrosiect seilwaith trwy gydsyniad statudol ac wedyn gallu mynd ati'n effeithlon i adeiladu. Er enghraifft, rhaid i ddata arolwg ecolegol fod yn barhaus am nifer o flynyddoedd cyn adeiladu. Pe bai'r gweithgarwch hwn yn dod i ben am gyfnod rhwng yr ymchwiliad a'r penderfyniad, byddai data'r arolwg yn anghyflawn, ac os câi penderfyniad ei wneud i fwrw ymlaen, byddai oedi sylweddol i'r adeiladu, tra bo data am gyfnod yr arolwg cyfan yn cael ei gasglu.

Pe bai penderfyniad wedi'i wneud yn gynharach yn y flwyddyn ariannol i beidio â gwneud y Gorchmynion Statudol, gallai rhai gweithgareddau fod wedi cael eu canslo. Er hynny, ni fyddai gwerth y gweithgareddau hyn yn sylweddol. Rhagwelir y bydd gwariant terfynol 2018-10 ar Brosiect yr M4 tua £25m yn hytrach na'r rhagolwg o £27.8m adeg adolygiad y Pwyllgor. Y rheswm dros hyn yw i rai gweithgareddau gael eu gwthio'n ôl lle'r oedd modd gwneud hynny nes y gwneir unrhyw benderfyniad i fwrw ymlaen.

Mae gwariant ar weithgareddau ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019-20 i lywio penderfyniad ar fuddsoddiad terfynol posibl yn cael ei adolygu ar hyn o bryd ac fe fydd, wrth gwrs, yn dibynnu i raddau helaeth ar ganlyniad y broses benderfynu statudol.

## **Argymhelliad 6**

**Mae'r Pwyllgor yn cydnabod nad oes penderfyniad wedi'i wneud eto ynghylch i fwrw ymlaen â ffordd liniaru'r M4 neu beidio ond, os mai'r bwriad yw bwrw ymlaen â'r cynllun, y byddai'n argymhell bod y Gweinidog Cyllid a'r Prif Weinidog yn dechrau trafodaethau ar gynllun ariannu tymor hir ar gyfer ffordd liniaru'r M4.**

**Ymateb:** Derbyn

Mae'r adroddiad ar brosiect yr M4, a baratowyd gan yr Arolygydd Annibynnol yn dilyn yr Ymchwiliad Cyhoeddus, yn ogystal â'r cyngor technegol y mae swyddogion wedi'i baratoi, bellach wedi dod i law'r Prif Weinidog. Bydd angen cyfnod o ystyriaeth ac fe roddir amser i fynd ar drywydd unrhyw gwestiynau sy'n deillio o'r cyngor cychwynnol.

Ni chaiff cyllid ei ddyrannu tan ar ôl canlyniad y broses statudol a chadarnhau'r proffil gwariant a ragwelir.

## **Argymhelliad 7**

**Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ganlyniad y cynllun ymadael gwirfoddol, sy'n cynnwys sut y defnyddiwyd y cyllid, faint o bobl a adawodd y sefydliad, faint o swyddi Brexit a gafodd eu creu a pha arbedion a gyflawnwyd neu a fydd yn cael eu cyflawni**

**Ymateb:** Derbyn

Nid yw Cynllun Ymadael Gwirfoddol 2018-19 wedi dod i ben eto ac, fel y cyfryw, mae'n rhy gynnar i ddarparu ffigurau pendant ar gyfer y nifer sy'n gadael, costau neu arbedion. Er hynny, yn ôl yr arwyddion cynnar mae'r costau o fewn y gyllideb o £9.5m a ddyrannwyd yn yr ail gyllideb atodol.

Mynegir yr arbedion fel cyfnod ad-dalu. Hwn yw cyfanswm cost ymadawiad wedi'i rannu â chost cyflog misol yr aelod o staff sy'n gadael. Rydym yn disgwyl i arbedion o gynllun 2018-19 fod o fewn yr ystod ad-dalu o 10 i 14 mis. Gellir cymharu hyn â lefel yr arbedion a gafwyd o gynlluniau yn yr ychydig flynyddoedd blaenorol.

Caiff costau ymadael staff ar gyfer 2018-19 eu datgelu ynn nghyfrifon blynyddol Llywodraeth Cymru.

Cafodd y cynllun ymadael gwirfoddol ei gynllunio yn bennaf i leihau maint gweithlu Llywodraeth Cymru i'w galluogi i gadw ei chostau o fewn ei chyllideb. Diben y cynllun hefyd oedd creu lle o fewn y gweithlu i alluogi Llywodraeth Cymru i recriwtio staff â sgiliau a phrofiad newydd i helpu i reoli Brexit yn ystod y cyfnod pontio a'r tu hwnt. Adolygir i ba raddau y mae'r cynllun ymadael gwirfoddol wedi sicrhau capasiti i reoli heriau Brexit pan fydd y cynllun wedi dod i ben a phan fydd y costau a'r arbedion wedi'u cyfrifo.

## **Argymhelliad 8**

**Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu naratif mor llawn â phosibl yn ei chyllidebau yn y dyfodol ar ei gweithgareddau sy'n ymwneud ag ymadawiad y DU â'r UE.**

**Ymateb:** Derbyn

Mae rheoli ymadawiad y DU â'r UE yn ganolog i waith cynllunio Llywodraeth Cymru ym mhob un o'i gweithgareddau. Er bod rhai gweithgareddau'n canolbwyntio ar ein paratodau ar gyfer ymadael, bydd angen i'n holl weithgareddau cynllunio, ar draws y llywodraeth, gymryd i ystyriaeth yr effeithiau y byddwn yn eu hwynebu. Mae cryn ansicrwydd o hyd ynghylch y math o Brexit a geir. Beth bynnag fydd ffurf Brexit yn y pen draw, bydd ymadael â'r UE yn achosi aflonyddwch. Dyna paham y byddwn, fel llywodraeth gyfrifol, yn parhau i gynllunio ar gyfer yr holl ganlyniadau posibl a byddwn

yn anelu at ddarparu naratif mor llawn â phosibl ar y gweithgareddau hyn yng nghyllidebau'r dyfodol.